***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 913 (Cy. 179)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Gorffennaf 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Awst 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Medi 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(2), 17(1) a (2), 26(1)(a), (2)(a) a (3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A)(**2**) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Medi 2018.

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 16(2) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 17(1) a (2) gan baragraffau 8 a 12(a) o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/228 (OJ Rhif L 35, 10.2.2017, t. 10).

**Diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012**

**2.** Mae Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012(**4**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 9.

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1), cyn y diffiniad o "Rheoliad 10/2011" mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "Rheoliad 2018/213" ("*Regulation 2018/213*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/213 ar y defnydd o bisffenol A mewn farneisiau ac araenau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 o ran y defnydd o'r sylwedd hwnnw mewn deunyddiau plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd(**5**);";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "neu Reoliad 10/2011" rhodder ", Rheoliad 10/2011 neu Reoliad 2018/213".

**4.** Yn rheoliad 14(1) (troseddau mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad 10/2011), yn lle "ac Erthygl 6 o Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/831," rhodder ", Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/831(**6**) ac Erthygl 6 o Reoliad 2018/213(**7**),".

**5.** Ar ôl rheoliad 17 (awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 1895/2005) mewnosoder—

## "RHAN 7A

## Y gofynion ar gyfer bisffenol A mewn farneisiau ac araenau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd

**Dehongli Rhan 7A**

**17A.** Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 2018/213.

**Troseddau mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad 2018/213**

**17B.** Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol yn Erthygl 6, mae unrhyw berson sy'n rhoi ar y farchnad ddeunydd neu eitem sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 2 yn euog o drosedd.

**Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 2018/213**

**17C.** Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Erthygl 4(3) yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd a phob awdurdod bwyd yn ei ardal."

**6.** Yn rheoliad 19 (troseddau a chosbau)—

(a) ym mharagraff (2), ar ôl "Rheoliad 10/2011" mewnosoder ", Rheoliad 2018/213";

---

(**4**) O.S. 2012/2705 (Cy. 291), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/832 (Cy. 202).
(**5**) OJ Rhif L 41, 14.2.2018, t. 6.
(**6**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/831 sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 140, 6.6.2018, t. 35). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig sy'n cydymffurfio â Rheoliad 10/2011 fel yr oedd yn gymwys cyn i Reoliad 2018/831 ddod i rym ar 26 Mehefin 2018 gael eu rhoi ar y farchnad tan 26 Mehefin 2019 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.
(**7**) Mae Erthygl 6 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig a roddwyd ar y farchnad yn gyfreithlon cyn 6 Medi 2018 aros ar y farchnad nes i'r stociau gael eu disbyddu.

(b) ym mharagraff (5)(a), yn lle "neu 16(4)" rhodder "16(4) neu 17B".

**7.** Yn rheoliad 24(2) (amddiffyniadau cyffredinol), ar ôl "16(4)" mewnosoder ", 17B".

**8.** Yn rheoliad 27(1)(a) (cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf)—

(a) ar ddiwedd paragraff (iv), hepgorer "a";

(b) ar ôl paragraff (v), mewnosoder—

"(vi) Erthygl 4 o Reoliad 2018/213; a".

**9.** Yn Atodlen 2, yn Rhan 1 (addasu adran 10(1)), yn adran 10(1A) fel y'i cymhwysir—

(a) ar ddiwedd paragraff (d), hepgorer "and";

(b) ar ddiwedd paragraff (e), yn lle "." rhodder "; and";

(c) ar ôl paragraff (e), mewnosoder—

"(f) Article 4 of Regulation 2018/213."

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

30 Gorffennaf 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 (O.S. 2012/2705 (Cy. 291)) ("y prif Reoliadau") i ddarparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/213 ar y defnydd o bisffenol A mewn farneisiau ac araenau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 o ran y defnydd o'r sylwedd hwnnw mewn deunyddiau plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 41, 14.2.2018, t. 6) ("Rheoliad 2018/213").

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 14 o'r prif Reoliadau i orfodi'r ddarpariaeth drosiannol y darperir ar ei chyfer yn Erthygl 6 o Reoliad 2018/213. Nid yw person yn euog o'r drosedd o fethu â chydymffurfio â gofyniad yn Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 12, 15.1.2011, t. 1) a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau os rhoddwyd y deunydd neu eitem plastig ar y farchnad yn gyfreithlon cyn 6 Medi 2018. Caiff cynhyrchion o'r fath aros ar y farchnad nes i'r stociau gael eu disbyddu.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliadau newydd 17A i 17C yn y prif Reoliadau i ddarparu ar gyfer gorfodi darpariaethau Rheoliad 2018/213 ar y defnydd o bisffenol A mewn farneisiau ac araenau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd. Mae rheoliad newydd 17B yn darparu, yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth drosiannol yn Erthygl 6 o Reoliad 2018/213, fod unrhyw berson sy'n rhoi ar y farchnad ddeunydd neu eitem sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 2 o'r Rheoliad hwnnw yn euog o drosedd. Mae Erthygl 2 yn darparu na chaniateir i unrhyw bisffenol A gael ei ollwng o farneisiau neu araenau y bwriedir yn benodol iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd i fabanod neu i blant ifanc ac, mewn perthynas â phob farnais ac araen arall y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, na chaniateir i fwy na 0.05mg o bisffenol A gael ei ollwng fesul pob kg o fwyd y maent mewn cysylltiad ag ef. Mae rheoliad newydd 17C yn darparu mai'r Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 4(3) o Reoliad 2018/213.

Mae rheoliadau 6 a 7 yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu bod person sy'n rhwystro'n fwriadol unrhyw berson sy'n gweithredu i roi Rheoliad 2018/213 ar waith yn cyflawni trosedd ac yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol. Mae person sy'n euog o'r drosedd o fethu â chydymffurfio ag Erthygl 2 o Reoliad 2018/213 yn agored ar euogfarn ar dditiad i ddirwy ddiderfyn neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu'r ddau, neu ar euogfarn ddiannod, i ddirwy ddiderfyn.

Mae rheoliadau 8 a 9 yn diwygio'r prif Reoliadau i alluogi swyddog awdurdodedig i'r awdurdod gorfodi i gyflwyno hysbysiad gwella i'w gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio ag Erthygl 4 o Reoliad 2018/213. Mae Erthygl 4 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnes sicrhau bod deunyddiau ac eitemau sydd wedi eu farneisio neu eu haraenu ac y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o gydymffurfedd â Rheoliad 2018/213.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn: Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, 11eg Llawr, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW neu ar wefan yr Asiantaeth ar www.food.gov.uk.